# Ateb i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 54065 i’w ateb ar 8 Mai 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiwn i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion gwariant cyhoeddus yng Nghymru fel cyfran o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ar gyfer pob blwyddyn er 1999. (WAQ54065)

***Rhoddwyd ateb ar 8 Ionawr 2010***

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch Cwestiwn Ysgrifenedig lle'r aethoch ati i ofyn am fanylion gwariant cyhoeddus yng Nghymru fel cyfran o CMC er 1999. Ymrwymais i anfon ateb atoch er mwyn rhoi'r wybodaeth y gwnaed cais amdani, a hoffwn ymddiheuro am yr oedi cyn anfon yr ateb hwnnw.

Mae'r tabl isod yn nodi gwariant cyhoeddus y gellir ei nodi yng Nghymru fel canran o'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) ar gyfer Cymru. Caiff GYC ei ddefnyddio yn lle CMC yn y Cyfrifon Rhanbarthol sy'n cael eu paratoi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

| | Gwariant cyhoeddus y gellir ei nodi ar wasanaethau yng Nghymru (£bn) | Prif Werth Ychwanegol Crynswth (£bn) | Gwariant cyhoeddus y gellir ei nodi fel canran o GYC |
|---|---|---|---|
| 2003 | 20.6 | 37.3 | 55.3% |
| 2004 | 21.6 | 39.0 | 55.4% |
| 2005 | 23.0 | 40.5 | 56.9% |
| 2006 | 24.2 | 42.2 | 57.3% |
| 2007 | 25.3 | 44.3 | 57.2% |
| 2008 | 27.4 | 45.6 | 60.1% |

Ffynhonnell: Dadansoddiadau Ystadegol o Wariant Cyhoeddus, Cyfrifon Rhanbarthol

Oedwyd cyn anfon ateb atoch er mwyn sicrhau bod modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn unol â'r Dadansoddiadau Ystadegol o Wariant Cyhoeddus ar gyfer 2009 a'r ffigurau diweddaraf ar gyfer GYC a gafodd eu rhyddhau heddiw gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Nid yw'r ffigurau ar gyfer y blynyddoedd cyn 2003 wedi'u cynnwys yn y tabl gan nad yw'r data ar wariant cyhoeddus ar gael mewn ffurf gyson.